TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT: **Ethol aelodau i Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor**
Elect members to the Arfon and Dwyfor Access Forum

AELOD CABINET/CABINET MEMBER :
Cynghorydd/Councillor Dafydd Meurig [Rheoleiddio / Regulatory]

PENDERFYNIAD/DECISION

1. Cadarnhau penodiad yr 19 ymgeisydd yn aelodau o Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor am y 3 blynedd nesaf.

2. Enwebu'r Cynghorydd Gruffydd Williams fel yr Aelod Etholedig ar y Fforwm

1. *Confirmation of the 19 applicants as members of the Arfon and Dwyfor Access Forum for the next three years*

2. *To nominate Councillor Gruffydd Williams as the Elected Member on the Arfon Dwyfor Forum.*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION
Rhan 1

1. Sefydlwyd Fforymau Mynediad Lleol yn dilyn mabwysiadu Deddf Cefn Gwlad a Mynediad 2000. Pwrpas y fforymau ydi cefnogi a chynghori Awdurdodau Lleol a'r Parciau Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud a mynediad i gefn gwlad

2. Sefydlwyd 3 fforwm ar gyfer ardal Gwynedd sef :

   - Fforwm Arfon a Dwyfor (tu allan i'r Parc) a weinyddir gan Gyngor Gwynedd
   - Fforwm Gogledd Y Parc a weinyddir gan y Parc Cenedlaethol
   - Fforwm De'r Parc a weinyddir gan y Parc Cenedlaethol

3. Yn arferol bydd fforwm yn cwrdd 4 gwaith y flwyddyn, mewn lleoliadau gwahanol o fewn eu hardal. Mae'n ofynnol i fforwm gael rhwng 12 a 22 o aelodau.

4. Disgwylir i aelodau'r fforymau ddangos bod ganddynt brofiad, diddordeb a chefndir perthnasol fydd yn eu galluogi i gyfrannu i waith y Fforwm.

5. Rhaid i aelodaeth y Fforwm sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau defnyddwyr hawliau tramwy a buddiannau perchnogion a meddianwyr tir sy'n destun hawliau mynediad.

6. Bydd fforwm yn rhedeg am 3 blynedd ac ar ddiwedd y cyfnod gwahoddir ceisiadau am aelodau yn y wasg leol a drwy lythyru a mudiadau defnyddwyr, cynghorau cymuned ayb. Yn ystod Ionawr a Chwefror 2015, gwahoddwyd ymgeiswyr i fod yn aelodau o'r Fforwm am y 3 blynedd nesaf.

7. Derbyniwyd 19 ffurflen gais, o'r 19 cais mae 8 yn aelodau presennol sy'n dymuno parhau ar y Fforwm, mae 11 yn ymgeiswyr newydd.

8. Cyflwynir manylion am yr ymgeiswyr yn Atodiad A, ynghyd a'u prif feysydd o ddiddordeb. Dylid nodi serch hynny bod yr ymgeiswyr yn arddangos diddordebau eang yn gysylltiedig â mynediad a chefn gwlad ynghyd a phrofiad a sgiliau o'u meysydd gwaith neu broffesiwn.

9. Gan ystyried y canllawiau cenedlaethol, " Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol - cyngor ac arweiniad ar arferion da (2001)" ynghyd a'r meini prawf a ddanfonwyd i'r ymgeiswyr, gweler Atodiad B gellir datgan bod yr ymgeiswyr yn cwrdd â'r gofynion i fod yn aelodau o'r Fforwm a'u bod yn cynnig cydbwysedd o ran diddordebau. Serch hynny mae'n siomedig mai dim ond un ferch sydd wedi ymgeisio i fod yn aelod.

10. Yn y gorffennol sefydlwyd Is-bwyllgor o'r Bwrdd i benodi aelodau. Mae'r penderfyniad i benodi aelodau bellach yn swyddogaeth weithredol sydd wedi ei ddirprwyo i'r Arweinydd Portffolio dros Reoleiddio.

11. Gofynnir i'r Arweinydd Portffolio gymeradwyo penodiad y 19 ymgeisydd fel aelodau o Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor am y tair blynedd nesaf.

Rhan 2

12. Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud a sefydlu a chynnal Fforymau Mynediad yn datgan bod rhaid penodi un (ond dim mwy nag un) Aelod Etholedig neu swyddog o'r Awdurdod Lleol I fod ar y Fforwm.

13. Mae'r Cynghorydd Peter Read, sydd wedi bod ar y fforwm am y ddau dymor diwethaf (cyfanswm o 6 mlynedd) wedi penderfynu ymddiswyddo. Mae gofyn felly enwebu Aelod Etholedig i fod yn aelod o'r Fforwm.

14. Mae'r Arweinydd Portffolio wedi enwebu'r Cynghorydd Gruffydd Williams i fod yn aelod o'r Fforwm.

Part 1

1. *Local Access Forums were set up following the adoption of the Countryside and Rights of Way Act 2000. The purpose of the forums is to support and advise Local Authorities and National Parks on matters involving access to the countryside.*

2. *3 forums were set up for the Gwynedd area, namely:*

    - *Arfon and Dwyfor Forum (outside the Park), administrated by Gwynedd Council*
    - *North Park Forum, administrated by the National Park*
    - *South Park Forum, administrated by the National Park*

3. *Usually, a forum meets four times per year in different locations within their area. A forum is required to have between 12 and 22 members.*

4. *Members of forums are expected to show that they have relevant experience; interest and background that will help them contribute to the Forum's work.*

5. *Membership of the Forum should demonstrate a reasonable balance between the interest of users and those of land owners and land managers that are subject to public access rights.*

6. *A forum will run for three years, and at the end of the period applications for members are welcomed through the local press, correspondence with user organisations and community councils etc. During January and February 2015, applicants were invited to be members of the Forum for the next three years.*

7. *19 application forms were received. Of the 19 applications, 8 are from current members who wish to remain on the Forum, 11 are new applicants.*

8. *Information about the applicants is provided in Appendix A, including their main areas of interest. It should be noted however that the applicants do demonstrate a wide range of interests in access and countryside matters along with skills and experiences gained from their work or professions.*

9. *With regards to the national Guidance "The establishment of Local Access Forums – Advice and best practice (2001) along with the criteria (Appendix B) sent to the applicants, the 19 applicants meet the necessary criteria for membership of the Forum and provide a reasonable balance between accesses related interests. However, it is disappointing that only one applicant was female.*

10. *In the past, membership of the Forum was decided by a Sub- Committee of the Council Board. The decision is now an Executive Function delegated to the Portfolio Leader with responsibility for the Regulatory Department.*

11. *The Portfolio Leader is requested to approve the selection of the 19 applicants listed in Appendix A as members of the Arfon and Dwyfor Access Forum for the next three years.*

Part 2

1. *The regulations involving establishing and maintaining Access Forums require that one (but not more than one) Elected Member or officer from the Local Authority should be on the Forum.*

2. *Councillor Peter Read, who has been on the forum for the last two terms (a total of six years), has decided to resign. It is therefore necessary to nominate an Elected Member to be a member of the Forum.*

3. *The Portfolio Leader has nominated Councillor Gruffydd Williams as the Elected Member on the Arfon and Dwyfor Access Forum*.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:- "Dim i'w ycwhanegu"/Nothing to add

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Mae'r daflen yn amlinellu y meini prawf a ddefnyddiwyd gan yr Aelod Cabinet wrth ddyfarnu ar y ceisiadau i fod yn aelodau o Fforwm Mynediad Arfon Dwyfor. Esbonir fod pob ymgeisydd wedi cyrraedd y gofynnion ar gyfer eu penodi yn sgil hysbysebu cyhoeddus. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

The notice outlines the criteria used by the Cabinet Member when determining the applications for membership of the Arfon Dwyfor Access Forum. It is explained that all applicants had reached the requirements to be appointed following a public advertisement. No further comments in relation to propriety.

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol / thing to add from a financial propriety perspective.

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Ddim yn fater Lleol/Not a Local Matter

LLOFNOD /SIGNED	DYDDIAD/DATE
	23.04.2015

Atodiad A
Appendix A

Enw ***Name***	**Lleoliad** ***location***	**Prif faes Diddordeb** ***Main area of intrest***	**Aelod newydd** ***New member***
Noel Davey	Abersoch	Defnyddiwr , aelod o gymdeithas y cerddwyr User, *member of the Ramblers*	ydyw / *yes*
E Eurwyn Edwards	Llanwnda	Amaeth / defnydd tir *Agriculture / land use*	ydyw
Peter Hewlett	Aberdaron	Busnes Twristiaeth *Tourism business*	ydyw / yes
David Jones	Criccieth	Defnyddiwr , aelod o gymdeithas Y Cerddwyr *User , member of The Ramblers*	ydyw / yes
Elis Gwyn Jones	Llanystumdwy	Aelod o Gyngor Cymuned / defnyddiwr *Member of Community Council / user*	Ydyw / yes
Emlyn Jones	Y Rhiw	Amaeth / mynediad i'r anabl *Agriculture / disabled access*	Ydyw / yes
Morgan Jones Parry	Llithfaen	Amaeth / defnydd tir *Agriculture/ land use*	
Bob Lowe	Clynnog	Cadwraeth / rheolaeth tir *Conservation / land management*	
David Metcalf	Borth y Gest	Defnyddiwr / grwp cadwraeth lleol *User / local conservation group*	
Vincent Mears	Llithfaen	Defnyddiwr *User*	
Denise Meldrum	Criccieth	Marchogaeth *Equestrian*	
Kenneth Owen	Chwilog	Amaeth *Agriculture*	ydyw / *yes*
Richard Parry	Bryncir	Amaeth / defnydd tir *Agriculture/ land use*	ydyw / *yes*
Dewi Wyn Roberts	Llanengan	Busnes twriastiaeth *Tourism Busines*	ydyw / *yes*
Peter Rutherford	Clynnog	Marchogaeth *Equestrian*	
David Thomas	Porthmadog	Amaeth / defnydd tir *Agriculture/ land use*	ydyw / *yes*
Michael Vitkovitch	Mynydd Llandygai	Marchogaeth *Equestrian*	Ydyw / *yes*

Atodiad A
Appendix A

Vin West	Llandwrog	Materion mynediad i'r anabl *Disabled access matters*	
Malcolm Wynnstanley	Bethesda	Defnyddiwr , aelod o gymdeithas Y Cerddwyr *User , member of The Ramblers*	

MEINI PRAWF AR GYFER DETHOL

Ar y dudalen yma mae rhestr o feini prawf ar gyfer barnu ceisiadau. Ond ni fydd rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â phob un o'r meini prawf er mwyn llwyddo.

Mae'n hanfodol bod aelodau'r FfMLl:

- Yn ymroddedig i waith y Fforwm:

  gwaith y Fforwm fydd yn rhoi cyngor i'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ar eraill ar wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal yna ar gyfer adloniant awyr agored ac er mwyn mwynhau'r ardal;

- yn gallu chwarae rhan gyflawn ymhob agwedd ar waith y FfMLl, a bod yn barod i gyfrannu – efallai na fydd y bobl sy'n gallu, neu sy'n barod i gynrychioli, rhan fach benodol o waith y FfMLl yn aelodau addas;

Fe fyddai'n fanteisiol i aelod o'r FFMLl:

- fod â phrofiad eang o faterion mynediad yn yr ardal;
- bod â phrofiad o weithio ar Fforymau tebyg yn y gorffennol, ac wedi cyfrannu i'w gwaith nhw;
- byw yn ardal y Fforwm, neu fod yn arbennig o gyfarwydd ag ardal y Fforwm, neu fod ag unrhyw ddiddordeb arall sy'n arbennig o berthnasol i ardal y Fforwm;
- gallu rhwydweithio gydag amrywiaeth mawr o gyrff ac unigolion, gyda'r nod o ledaenu gwaith y FfMLl;
- gallu dod i bob un o gyfarfodydd y Fforwm (ni fydd hawl i ddirprwyon ddod iddyn nhw).

CRITERIA FOR SELECTION

The following is a list of criteria against which applications will be judged. However, applicants will not necessarily have to comply with all of the criteria to be successful.

It is essential that a LAF member will:

- be committed to the function of the Forum:

  the function of the Forum will be to advise the local authority, Natural Resources Wales and others as to the improvement of public access to land in the area for the purposes of open-air recreation and the enjoyment of the area;

- be willing and able to play a full part in all aspects of a LAFs work – persons who are only willing or able to represent a narrow specific interest may not be suitable members.

It is desirable that a LAF member will:

- have a wide range of experience of access issues in the area;
- have experience of working on, and contributing to, similar Forums in the past;
- reside in, be particularly familiar with, or have any other interests especially relevant to, the area of the Forum;
- be able to network with a wide range of organisations and individuals, with an aim to disseminating the LAFs work.
- be able to attend all meetings of the Forum (deputies will not be permitted).